COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL 1999/2000

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU
ADRODDIAD BLYNYDDOL 1999/2000

Datganiad y Cadeirydd

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn garreg filltir i'r Comisiwn. Cwblhawyd y rhaglen o arolygon etholiadol a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn cyfarwyddiadau i ni ym 1995, o'n rhan ni, er y'n cyfeiriwyd yn ddiweddar i arolygu ein cynigion ar gyfer y trefniadau etholiadol i rannau o Fro Morgannwg yn y flwyddyn gyfredol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru fu ein hadran noddi ers mis Gorffennaf. Mae'n dda gennyf adrodd bod ein hannibyniaeth sefydledig fel corff ymgynghorol wedi aros yn ddigyfnewid. Ym mis Hydref, caniataodd Mr Peter Law, Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai y Cynulliad, amser o fewn amserlen brysur iawn, i annerch ein Cyfarfod Agored Blynyddol yn Llanbedr Pont Steffan. Bwrodd oleuni gwerthfawr ar weithdrefnau'r Cynulliad i bawb oedd yn bresennol a nododd rai o'r materion a fydd yn codi yn y dyfodol ar gyfer y Comisiwn o'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferendwm sydd gerbron y Senedd. Mae'r rhain yn faterion a gaiff eu hystyried yn arolwg polisi arfaethedig y Comisiwn yr haf hwn. Edrychwn ymlaen at chwarae ein rhan yn y broses bwysig hon.

Yn y cyfamser, lle y Cynulliad Cenedlaethol fydd gwneud y gorchmynion etholiadol terfynol fel y caiff yr etholiadau llywodraeth leol nesaf, yn 2003, eu cynnal mewn rhanbarthau y byddant oll wedi bod yn destun arolwg diweddar.

Wrth i ni nesáu at ddiwedd y rhaglen o arolygon etholiadol, llwyddwyd i gwrdd â'n rhwymedigaeth i gadw prif ardaloedd Cymru dan arolwg ac rydym wedi archwilio nifer o anghysonderau ffiniol. Ein nod oedd hwyluso'r broses o gyflwyno gwasanaethau yn effeithiol a chyfleus a hwyluswyd ein gwaith yn fawr gan y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr holl gynghorau a'r llu o unigolion cysylltiedig.

Unwaith eto hoffwn nodi fy ngwerthfawrogiad o waith Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn a'm cyd Gomisiynwyr.

YR ATHRO ERIC SUNDERLAND OBE LL MA PhD LLD FIBiol
Cadeirydd

CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD 1

- Y Comisiwn 1
- Dyletswyddau Statudol 1
- Gweithdrefn Arolygu 2

2. AMCANION 3

- Yr Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol 3
- Y Rhaglen o Arolygon Etholiadol 3
- Targedau 3

3. GWEITHGAREDD YN Y FLWYDDYN FLAENOROL 4

- Arolygon o'r Trefniadau Etholiadol 4
- Arolygon o'r Prif Ardaloedd a'r Ardaloedd Cymuned 4

4 GWAITH Y COMISIWN 5

- Arolygon o'r Trefniadau Etholiadol 5
- Arolygon Prif Ardaloedd 5
- Arolygon Cymuned 6

5. RHEOLAETH GORFFORAETHOL: POLISÏAU AC ARFER 7

- Datganiad Rheoli, Memorandwm Ariannol a Chodau 7
- Cyllideb ac Archwiliad 7
- Cynllun Iaith Gymraeg 8
- Hyfforddiant a Thechnoleg Gwybodaeth 8
- Arolwg Polisi 8

6. CYFRIFON 9

1. CYFLWYNIAD

Y Comisiwn

1.1 Sefydlwyd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ym mis Mehefin 1974 o dan dermau Adran 53 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972). Dynodir swyddogaethau statudol y Comisiwn yn Adrannau 53 i 78 Deddf 1972 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (Deddf 1994). Darpara Atodlen 8 i Ddeddf 1972 ar gyfer cyfansoddiad a threfniadau'r Comisiwn.

1.2 Nod y Comisiwn yw:

cynnal arolygon o ardaloedd llywodraeth leol a threfniadau etholiadol yng Nghymru, gyda'r bwriad o ystyried a ddylid cyflwyno cynigion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i weithredu newidiadau sy'n ymddangos i'r Comisiwn yn rhai sy'n ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Aelodaeth

1.3 Cadeirydd: Yr Athro E. Sunderland OBE LL JP MA PhD LLD FIBiol,
Dirprwy Gadeirydd: Mr E. F. L. FitzHugh OBE DL JP,
Aelod: Mrs S. G. Smith LLB.

Gwneir apwyntiadau i'r Comisiwn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n rhaid bod gan y Comisiwn o leiaf un person sy'n siarad Cymraeg, ac am gyfnod ei swydd, y Cadeirydd sydd â'r rôl statudol hon. Mae'r comisiynwyr ar hyn o bryd yn aelodau o gyrff cyhoeddus eraill. Mae'r Athro Sunderland yn aelod Bwrdd ac yn Gadeirydd Pwyllgor Cymru o'r Cyngor Prydeinig, Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Asiantaeth yr Amgylchedd dros Gymru ac yn aelod o Gyngor Darlledu Cymru y BBC. Mae Mr FitzHugh yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Ddwyrain Cymru. Mae Mrs Smith yn aelod o Gomisiwn Ffiniau Cymru ac yn Gyfarwyddwr anweithredol o Ymddiriedolaeth NHS Caerdydd a'r Fro.

Mae'r Comisiwn yn cwrdd tuag unwaith y mis neu yn ôl gofynion y rhaglen waith. Cynhaliwyd un ar ddeg o gyfarfodydd yn ystod 1999/00.

Yr Ysgrifenyddiaeth

1.4 Cefnogir y Comisiwn gan ysgrifenyddiaeth a leolir yn Nhþ Caradog; 1-6 Plas St. Andrews, Caerdydd. Ar ddechrau'r flwyddyn roedd 7 aelod o staff, mewn 2 dîm. Ym mis Tachwedd 1999 mabwysiadwyd strwythur o un tîm gyda 5 aelod o staff. Mae'r Comisiwn yn cyflogi'r Ysgrifennydd a'r Swyddog Mapio yn uniongyrchol ac mae'r 3 aelod arall o'r staff ar secondiad o Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Thþ'r Cwmnïau.

Dyletswyddau Statudol

1.5 Prif ddyletswyddau'r Comisiwn yw:

Ardaloedd Llywodraeth Leol

i) cynnal arolygon o'r holl brif ardaloedd yng Nghymru at ddiben ystyried a ddylid cynnig newidiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymddangos yn rhai sy'n ddymunol i'r Comisiwn er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus;

ii) ystyried ceisiadau am arolygon gan awdurdodau lleol;

iii) ystyried adroddiadau a gyflwynir gan brif gynghorau mewn perthynas ag arolygon cymuned a gynhaliwyd ganddynt a gwneud argymhellion i'r Cynulliad Cenedlaethol;

Trefniadau Etholiadol

iv) o dan ddarpariaethau adran 64 newydd a ychwanegwyd at Ddeddf 1972 gan Adran 6 Deddf 1994, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl etholiad cyffredin cynghorwyr ar gyfer unrhyw un o'r prif ardaloedd yng Nghymru a gynhaliwyd ym 1995 roedd yn ofynnol i'r Comisiwn:

a) gynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardal honno gyda'r bwriad o ystyried y trefniadau etholiadol yn y dyfodol; a

b) llunio cynigion ar gyfer y trefniadau hynny; a

v) heb fod yn llai na deg neu bymtheng mlynedd ar ôl cwblhau'r arolwg cychwynnol ac wedi hynny, ar gyfnodau tebyg, cynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal yng Nghymru.

Cyfarwyddiadau

vi) gall yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal arolwg o Gymru gyfan, neu o unrhyw un neu fwy o ardaloedd llywodraeth leol neu rannau o ardaloedd o'r fath yng Nghymru.

Gweithdrefn Arolygu

1.6 Mae Adran 60 Deddf 1972 yn diffinio'r canllawiau gweithdrefnol sydd i'w dilyn wrth ymgymryd â phob arolwg. Camau sylfaenol arolwg yw:

i) cyhoeddi dyddiad dechrau'r arolwg pan wahoddir awgrymiadau a sylwadau cychwynnol erbyn dyddiad penodol;

ii) cyhoeddi cynigion drafft y Comisiwn pan wahoddir sylwadau arnynt yn yr un modd erbyn dyddiad penodol; a

iii) cyhoeddi cynigion terfynol pan ddylai unrhyw sylwadau pellach gael eu cyfeirio ar ôl hyn at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

2. AMCANION

2.1 Nododd Arolwg Polisi a gynhaliwyd gan y Swyddfa Gymreig ym 1993 yr arolwg o'r trefniadau etholiadol fel prif waith y Comisiwn am gyfnod o 5 mlynedd yn dilyn ethol y darpar awdurdodau unedol ym mis Mai 1995 fel y gorchmynnwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

2.2 Ym mis Mehefin 1995 rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddyd i'r Comisiwn gynnal arolwg o drefniadau etholiadol pob un o'r awdurdodau unedol yn unol ag amserlen ar gyfer cyflwyniadau gan ddod i ben erbyn mis Rhagfyr 1999. Cyhoeddodd gyfarwyddiadau hefyd i arwain y Comisiwn wrth ystyried maint cyffredinol y cynghorau, y gymhareb etholiadol a'r ystyriaeth o ran rhanbarthau un aelod/aml-aelod.

Yr Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol

2.3 Prif nod arolwg etholiadol yw cyflawni trefniadau etholiadol teg ar gyfer pob prif gyngor. Diffinnir trefniadau etholiadol fel:

i) cyfanswm nifer y cynghorwyr i'w hethol i'r cyngor;

ii) nifer a ffiniau'r rhanbarthau etholiadol;

iii) nifer y cynghorwyr i'w hethol ar gyfer pob rhanbarth etholiadol; a

iv) enw unrhyw ranbarth etholiadol.

Y Rhaglen o Arolygon Etholiadol

2.4 Er mwyn bodloni'r nod o arolygu trefniadau etholiadol y 22 prif gyngor erbyn mis Rhagfyr 1999, mabwysiadodd y Comisiwn raglen gan ddyrannu deuddeg mis i bob arolwg.

Targedau

2.5 Caiff cynnydd yr arolygon ei fonitro yn erbyn y cyfnodau allweddol. Nid oes unrhyw gyfnodau amser statudol ar gyfer yr ymgynghori nac ar gyfer camau eraill y weithdrefn; bydd y rhain yn ôl disgresiwn y Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r angen i ddarparu digon o amser ar gyfer cyflwyno safbwyntiau awdurdodau lleol a phersonau eraill sydd â diddordeb. Gosodwyd targedau o fewn pob arolwg deuddeg mis i adlewyrchu'r gofynion ar gyfer cyhoeddusrwydd ac ymgynghori, ystyriaeth o'r materion dan sylw a chynhyrchu a chyflwyno adroddiadau drafft a therfynol.

2.6 Ymgorfforwyd cyfnod rhwng dyddiad targed y Comisiwn ar gyfer pob adroddiad terfynol ac amserlen arweiniad yr Ysgrifennydd Gwladol i'r rhaglen i ganiatáu ar gyfer hapddigwyddiadau. Mae'r cyfnod hwn wedi caniatáu i'r Comisiwn ymestyn y cyfnod ymgynghorol gydag awdurdodau lleol neu ystyried rhagolygon etholiadol diwygiedig sydd bellach ar gael. Yn unol â hynny, at derfynau amser yr Ysgrifennydd Gwladol y cyfeirir pan nodir bod targedau wedi'u cyrraedd.

3. GWEITHGAREDD YN Y FLWYDDYN FLAENOROL

Arolygon o'r Trefniadau Etholiadol

3.1 Ym **1998/99**, parhaodd y Comisiwn â'r rhaglen a ddechreuodd ym 1995 i arolygu trefniadau etholiadol y 22 prif gyngor yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol.

3.2 Cwblhawyd arolygon y trefniadau etholiadol ar gyfer y prif gynghorau canlynol:

	Dyddiad cyflwyno	Targed
Caerdydd	Gorffennaf 1998	Gorffennaf 1998
Gwynedd (rhan bellach)	Medi 1998	Medi 1998
Casnewydd	Gorffennaf 1998	Rhagfyr 1999
Ynys Môn	Tachwedd 1998	Rhagfyr 1999
Blaenau Gwent	Ionawr 1999	Rhagfyr 1999

3.3 Ym mis Tachwedd 1998 gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol Orchmynion a alluogodd i 14 o brif gynghorau gael eu hethol ym mis Mai 1999 yn ôl trefniadau a argymhellwyd gan y Comisiwn.

3.4 Ym mis Tachwedd 1998 hysbysodd yr Ysgrifennydd Gwladol y Comisiwn hefyd ei fod am roi cyfarwyddyd i gynnal arolwg pellach o rannau o Fro Morgannwg yn dilyn cyflwyno adroddiad terfynol y Comisiwn ar gyfer y Fwrdeistref Sirol ym mis Mawrth 1998.

3.5 Ym mis Ionawr 1999 rhoddodd gyfarwyddyd i gynnal arolwg pellach o rannau o Gasnewydd.

3.6 Parhawyd â'r arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer y 3 phrif gyngor yn y rhaglen:

Ceredigion
Sir Fynwy
Tor-faen

Gohiriwyd yr arolygon hyn, gan y Comisiwn, er mwyn rhoi'r cyfle i'r cynghorau hyn gynnal arolygon cymunedol, er i Tor-faen benderfynu peidio â gwneud hyn yn nes ymlaen.

Arolygon o brif ardaloedd

3.7 Daeth y ddyletswydd statudol i arolygu ardaloedd sirol yn rhan sylweddol o waith y Comisiwn yn ystod y flwyddyn.

3.8 Ym mis Chwefror 1998, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddyd i'r Comisiwn arolygu'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol **Bro Morgannwg** a **Phen-y-bont ar Ogwr** yng nghyffiniau Cymunedau'r Wig, Ewenni a Saint-y-brid. Dechreuodd yr arolwg ym mis Mai 1998 a chynhaliwyd pleidlais ddirgel fel rhan o'r broses ymgynghori.

3.9 Ym mis Gorffennaf 1998 dechreuodd y Comisiwn arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf yn ward Evanstown yng Nghymuned Cwm Ogwr a Chymuned Gilfach Goch.

3.10 Ym mis Chwefror 1999 dechreuodd y Comisiwn arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Blaenau Gwent a Chaerffili yn ardal Ystâd Ddiwydiannol Tafarnaubach.

3.11 Cynhaliodd y Comisiwn eu Cyfarfod Agored Blynyddol cychwynnol yn Llanfair ym Muallt ym mis Tachwedd 1998 pan lansiwyd gwefan y Comisiwn. Sefydlwyd system gwybodaeth ddaearyddol (GIS) yn ystod y flwyddyn.

4. GWAITH Y COMISIWN YN YSTOD 1999/2000

4.1 Cynigiodd y Cynllun Gweithredol ar gyfer **1999/2000** weithgaredd ym mhrif gategorïau dyletswyddau statudol y Comisiwn.

Arolygon o Drefniadau Etholiadol

4.2 Cwblhawyd arolygon o drefniadau etholiadol y prif gynghorau canlynol o fewn y terfynau amser a gyfarwyddwyd:

	Dyddiad cyflwyno	Targed
Tor-faen	Hydref 1999	Rhagfyr 1999
Ceredigion	Rhagfyr 1999	Rhagfyr 1999
Casnewydd (rhan bellach)	Rhagfyr 1999	Rhagfyr 1999
Sir Fynwy	Mawrth 2000	Mawrth 2000

4.3 Roedd yr arolwg pellach o drefniadau etholiadol Casnewydd yn cynnwys Cymunedau Coedcernyw, Maerun, Llanfihangel-y-fedw, Tþ-du, a Pharc Tredegar. Arolygwyd y dyddiad cwblhau ar gyfer arolwg Sir Fynwy gan gyfarwyddyd o'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn caniatáu ar gyfer derbyn gwybodaeth gan y Cyngor mewn perthynas â wardiau cymunedol ailgyfluniedig.

4.4 Derbyniwyd y cyfarwyddiadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gynnal arolwg pellach o rannau o **Bro Morgannwg** erbyn 31 Mawrth 2001 ym mis Mawrth 2000. Heb gynnwys yr arolwg pellach o'r Fro, mae rhaglen y Comisiwn o arolygon etholiadol yn gyflawn.

Arolygon Prif Ardaloedd

4.5 Cwblhawyd yr arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr yn ardal Cymunedau'r Wig, Ewenni a Saint-y-brid y cynhaliwyd y rhan fwyaf ohono yn ystod y flwyddyn flaenorol, ym mis Gorffennaf 1999. Cynigiodd y Comisiwn na ddylid newid y ffin. Cytunodd y Cynulliad ar hyn ar 6ed Rhagfyr 1999.

4.6 Roedd yr arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf (Evanstown a Gilfach Goch) yn amodol ar bleidlais gudd gan etholwyr Evanstown wedi cyhoeddi'r adroddiad drafft ym mis Mawrth 1999. Gwelodd y Comisiwn y caiff y broses o gyflwyno'r gwasanaethau ei rhannu gan y ffin bresennol ond yng ngoleuni'r mwyafrif clir o blaid cadw'r ffin bresennol, cynigiodd y Comisiwn, yn eu hadroddiad terfynol ym mis Ebrill 2000, na ddylid gwneud unrhyw newid.

4.7 Cwblhawyd yr arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Blaenau Gwent a Chaerffili (Ystâd Ddiwydiannol Tafarnaubach) ym mis Chwefror 2000, gyda'r Comisiwn yn cynnig y dylid newid y ffin fel y byddai'r holl ystâd ddiwydiannol yn gorwedd o fewn Blaenau Gwent.

Ym mis Mai 1999 dechreuwyd ar yr arolwg o'r ffin rhwng Dinas a Sir Abertawe a Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot yn ardal Heol Pontardawe. Cyhoeddwyd adroddiad drafft y Comisiwn ym mis Chwefror 2000 yn chwilio am farn ar y newidiadau a gynigir.

4.8 Ym mis Tachwedd dechreuodd y Comisiwn ar yr arolwg o'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg yn yr ardal i'r de o draffordd yr M4. Mae'r arolwg hwn, a'r rhai y cyfeirir atynt ym mharagraffau 4.10 a 4.11 isod, yn parhau adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn.

4.9 Ym mis Tachwedd 1999 dechreuodd y Comisiwn ar yr arolwg o'r ffin rhwng Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn ardal Cymuned Gorllewin Llandysilio.

4.10 Derbyniodd y Comisiwn gynrychioliadau gan Gyngor Cymuned Llandudoch i gynnal arolwg o'r ffin rhwng Siroedd Ceredigion a Sir Benfro lle mae'n rhannu pentref Llandudoch. Cytunodd y Comisiwn i gynnal yr arolwg hwn a ddechreuodd ym mis Mawrth 2000.

Arolygon Cymunedol

4.12 Yn flaenorol mae'r Comisiwn wedi tynnu sylw at y modd yr effeithiwyd ar ardaloedd cymunedol gan newidiadau demograffaidd a gyflwynwyd gan ddatblygiadau ers y cynhaliwyd yr Arolwg Cymunedol Arbennig gan y Comisiwn rhwng 1974 a 1985. Cyfrifoldeb y prif gynghorau yw'r swyddogaeth hon bellach. Gofynnir i gynghorau sy'n cynnig newidiadau i ardaloedd cymunedol eu cyflwyno fel cynigion i'r Comisiwn, a fydd wedi ystyriaeth, yn gwneud argymhellion i'r Cynulliad Cenedlaethol. Cyfrifoldeb y prif gynghorau yn unig yw'r arolygon o drefniadau etholiadol cymunedol, gan gynnwys newidiadau i wardiau cymunedol, er bod gan y Comisiwn hawl i weithredu mewn amgylchiadau penodol. Er mwyn galluogi'r cynghorau i rannu profiadau'r rhai hynny sy'n cynnal arolygon cymunedol, trefnodd y Comisiwn seminar ar y gweithdrefnau mewn cydweithrediad â'r Cyfarfod Agored Blynyddol a gynhaliwyd ym mis Hydref 1999 yn Llanbedr Pont Steffan.

5. RHEOLAETH GORFFORAETHOL: POLISÏAU AC ARFER

Datganiad Rheoli, Memorandwm Ariannol a Chodau

5.1 Mae Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol yn arwain prosesau rheoli'r Comisiwn ac yn galw am gyflwyno Cynlluniau Gweithredol, Adroddiadau Blynyddol a gwybodaeth berthnasol arall at ddibenion cyllido, monitro ac asesu perfformiad i'r Cynulliad Cenedlaethol. Cynhelir cyfarfodydd cyswllt chwarterol a chyfarfod arolwg blynyddol gydag adran noddi'r Cynulliad Cenedlaethol.

5.2 Mabwysiadwyd Cod Ymarfer Arfer Da ar gyfer Comisiynwyr ac mae cofrestr o fuddiannau ariannol uniongyrchol ac anuniongyrchol Comisiynwyr ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Gellir trefnu i'w gweld drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd yn swyddfeydd y Comisiwn. Mae yna god tebyg mewn perthynas â staff.

5.3 Mae'r Comisiwn yn cwrdd fel Pwyllgor Archwilio, wedi'i gadeirio gan Ddirprwy Gadeirydd y Comisiwn. Yn ystod y flwyddyn cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith.

5.4 Mabwysiadwyd arferion gwaith sy'n gytûn ag egwyddorion gonestrwydd, ymgynghori a chymwynasgarwch. Er enghraifft, rhoddodd y Comisiwn gyhoeddusrwydd eang i'w bwriad i gynnal pob arolwg ac ysgrifennu at ac ymweld â'r awdurdod lleol dan sylw i drafod yr arolwg a gwahodd eu sylwadau cychwynnol. Ar gyfer pob arolwg mae'r Comisiwn yn cyhoeddi datganiad i'r wasg ar eu cynigion drafft a'u cynigion terfynol a chyflenwir digon o gopïau o'r adroddiadau i alluogi iddynt gael eu dosbarthu am ddim i bob aelod o'r prif gyngor, cynghorau cymuned a llyfrgelloedd lleol. Mae nifer o gopïau ar gael hefyd i drigolion lleol ar gais. Rhydd gwefan y Comisiwn: *www.lgbc-wales.gov.uk* wybodaeth am y Comisiwn, cynnydd yr arolygon a chyfle i weld adroddiadau blaenorol.

5.5 Cynhaliwyd Cyfarfod Agored Blynyddol y Comisiwn ym mis Hydref 1999 yn Llanbedr Pont Steffan. Ym mis Tachwedd 1999 trefnodd y Comisiwn gyfarfod cyswllt rhwng Comisiynau Seneddol a Chomisiynau Llywodraeth Leol Cymru, Lloegr, a'r Alban yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd.

Cyllideb ac Archwiliad

5.6 Roedd gwariant y Comisiwn ar gostau staff, taliadau gweithredol eraill a chaffaeliadau o asedion sefydlog yn ystod 1999/2000 o £354,912 ar sylfaen ariannol ymhell o fewn y dyraniad cymorth grant ar gyfer y flwyddyn o £504,000. Mae hyn yn adlewyrchu maint y gwaith a amlinellir ym mhennod 4 ac ymroddiad y Comisiwn i gyflawni gwerth am arian wrth brynu nwyddau a gwasanaethau.

5.7 Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian mae cyfres gynhwysfawr o gyfarwyddiadau desg sy'n ymwneud â systemau a gweithdrefnau mewn grym. Mae Grant Thornton, archwilwyr mewnol y Comisiwn, wedi cynnal archwiliad mewnol o'r systemau a'r gweithdrefnau hyn ac mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cynnal yr archwiliad allanol o gyllid y Comisiwn.

Cynllun Iaith Gymraeg

5.8 Dymuna'r Comisiwn gadarnhau y gall y cyhoedd ddelio â hwy yn Gymraeg ac ym mis Gorffennaf 1998, mabwysiadodd y Comisiwn eu Cynllun Iaith Gymraeg yn unol â darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Gorchymyn Cynlluniau yr Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1996. Mae'r Comisiwn bellach wedi cyhoeddi eu hail adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar weithrediad y cynllun. Wrth grynhoi, mae'r adroddiad yn cadarnhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â'r mesurau, yr amserlen a'r

targedau a bennir yn eu cynllun. Cynhwysir tystiolaeth o'r ymrwymiad i'r **egwyddor y bydd y Comisiwn, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal** yng nghyhoeddiadau dwyieithog yr holl adroddiadau a'r cyhoeddusrwydd y cyfeirir atynt yn yr Adroddiad Blynyddol hwn. Fodd bynnag mae'r cynllun hefyd yn cynnwys llawer o fesurau manwl eraill i ategu'r egwyddor a chyflenwir copi o'r adroddiad llawn ar gais neu gellir cael gafael arno ar wefan y Comisiwn.

Hyfforddiant a Thechnoleg Gwybodaeth

5.9 Mae hyfforddiant staff a mapio wedi canolbwyntio ar TG yn ystod y flwyddyn er bod cyrsiau sy'n berthnasol i ddibenion datblygu staff eraill wedi eu mynychu.

5.10 Mae'r Comisiwn wedi sefydlu System Gwybodaeth Ddaearyddol i wella eu gallu i brofi dewisiadau eraill a chyflwyno cynigion sy'n ymwneud â'u gwaith. Llwyddodd systemau technoleg gwybodaeth y Comisiwn i gydymffurfio â newid y Flwyddyn 2000.

Arolwg polisi

5.11 Yn y Papurau Gwyn, "Moderneiddio Llywodraeth Leol", cyflwynodd y Llywodraeth nifer o gynigion ynghylch trefniadau etholiadol llywodraeth leol y byddai ganddynt oblygiadau ar gyfer llwyth gwaith y Comisiwn yn y dyfodol. Mae'r rhain yn faterion gaiff eu hystyried gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynhelir arolwg polisi pum-mlynyddol nesaf y Comisiwn ar ddechrau haf y flwyddyn ariannol bresennol a bydd yn ymdrin â goblygiadau'r materion hyn a materion eraill sy'n codi yn sgîl sefydlu Comisiwn Etholiadol gan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferendwm.

6. CYFRIFON

RHAGAIR I'R CYFRIFON
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2000

Y Cefndir Statudol

6.1 Sefydlwyd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru o dan Adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 at ddiben arolygu'n barhaus ardaloedd a threfniadau etholiadol llywodraeth leol yng Nghymru.

6.2 O 1 Ebrill 1995 daeth y Comisiwn yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol a ariennir gan Gymorth grant oddi wrth y Swyddfa Gymreig ac er 1 Gorffennaf 1999 oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol.

6.3 Swyddogaeth gyffredinol y Comisiwn, fel y'i nodwyd yn Neddf 1972 yw "cyflwyno cynigion i'r Cynulliad Cenedlaethol am newidiadau sydd, yng ngolwg y Comisiwn, yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus."

6.4 Y prif ddyletswyddau o dan y statud yw:

i) arolygu pob ardal llywodraeth leol yng Nghymru yn barhaus at ddiben ystyried a ddylid cynnig newidiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol sydd yng ngolwg y Comisiwn, yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

ii) ystyried ceisiadau gan awdurdodau lleol am arolygon yn ogystal ag argymhellion oddi wrth y prif gynghorau sy'n deillio o'u harolygon cymuned eu hunain;

iii) ystyried canlyniadau arolygon a gynhaliwyd naill ai gan y Comisiwn neu'r awdurdodau lleol gan wneud argymhellion i'r Cynulliad Cenedlaethol;

iv) cynnal arolwg o Gymru gyfan, neu unrhyw un neu fwy o ardaloedd llywodraeth leol neu unrhyw rannau o'r cyfryw ardaloedd yng Nghymru, yn ôl cyfarwyddyd y Cynulliad Cenedlaethol;

v) o dan ddarpariaethau'r Adran 64 newydd a gynhwyswyd yn Neddf 1972 gan Adran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ethol cynghorwyr mewn unrhyw un o'r prif ardaloedd yng Nghymru fel y'i daliwyd ym 1995:

a) arolygu'r trefniadau etholiadol i'r ardal honno gyda'r bwriad o ystyried trefniadau etholiadol yn y dyfodol; a

b) llunio cynigion ar gyfer y trefniadau hyn.

6.5 Paratowyd y cyfrifon yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chytundeb y Trysorlys.

Arolwg o'r Gweithgareddau

6.6 Yn ystod y flwyddyn cwblhaodd y Comisiwn ei arolygon o'r trefniadau etholiadol yn y tri chyngor olaf yn ei raglen gyffredinol o arolygon o'r fath ac, yn ôl cyfarwyddyd yr

Ysgrifennydd Gwladol, dyddiedig 29 Ionawr 1999, cynhaliodd arolwg pellach o'r trefniadau mewn un o rannau o Gyngor Bwrdeistref Casnewydd.

6.7 Daeth arolygon o ffiniau yn rhan sylweddol o waith y Comisiwn yn ystod y flwyddyn. Fel y manylwyd arno yn yr Adroddiad Blynyddol, cwblhaodd y Comisiwn ddau arolwg, tra'n parhau ag un a gwblhawyd ar ddechrau'r flwyddyn gyfredol a chychwyn ar bedwar.

6.8 Ni chyflwynodd y prif gynghorau, sy'n gyfrifol am gynnal arolygon o ardaloedd cymuned a threfniadau etholiadol cymuned, unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau i ardaloedd cymuned i'r Comisiwn eu hystyried yn ystod y flwyddyn. Cynhaliodd y Comisiwn, gyda chymorth aelodau o staff llywodraeth leol, seminar ar y gweithdrefnau a bu trafodaethau gyda'r cynghorau mewn perthynas â'r gwaith hwn trwy gydol y flwyddyn.

6.9 Cyflawnodd y Comisiwn ei oblygiadau rheoli corfforaethol yn unol â'i Ddatganiad Rheoli a'i Femorandwm Ariannol, Côd Arfer Gorau'r Comisiynwyr a Chynllun yr Iaith Gymraeg. Cafodd swyddfa'r ysgrifenyddiaeth ei lleihau a'i hailstrwythuro er mwyn adlewyrchu'r lefelau newydd o waith ar ddiwedd y rhaglen o arolygon etholiadol.

Canlyniadau a Neilltuadau

6.10 Cyfanswm y gwarged ar gyfer y cyfnod oedd £2,253 ac fe'i trosglwyddwyd i'r cronfeydd wrth gefn. Cyfanswm arian y Llywodraeth ar 1 Mawrth 2000 oedd £21,887.

Polisi ynglŷn â Gwneud Taliadau

6.11 O dan bolisi'r Comisiwn ynglŷn â gwneud taliadau mae'n ofynnol talu pob anfoneb o fewn 30 diwrnod ar ôl ei derbyn. Mae'r polisi hwn yn unol â'r gofynion a nodwyd yng Nghyfrifo'r Llywodraeth ac mae'n dilyn Côd Talu'n Brydlon Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain. Ym 1999/00 anfonwyd 248 o anfonebau i'r Comisiwn a thalwyd 95% ohonynt o fewn 30 diwrnod.

Datblygiadau yn y Dyfodol

6.12 Cwblhawyd rhaglen arolygon etholiadol y Comisiwn ym 1999/2000. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2000 cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol gyfarwyddiadau i arolygu trefniadau etholiadol Cyngor Bwrdeistref Bro Morgannwg ymhellach a bydd arolygon eraill o drefniadau etholiadau'n dibynnu ar unrhyw gyfarwyddiadau pellach y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn eu cyhoeddi ar ôl iddo ystyried yr adroddiadau a gyflwynwyd.

6.13 Hwyrach y bydd y Cynulliad Cenedlaethol, wrth ystyried y Papur Gwyn, "Modernising Local Government in Wales", yn cynnig newidiadau i'r ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n berthnasol i waith arolygu etholiadau'r Comisiwn yn y dyfodol.

6.14 Ar 17 Gorffennaf 2000 cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol gyfarwyddiadau i'r Comisiwn gynnal arolwg o'r ffin rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Cyngor Bwrdeistref Wrecsam erbyn 31 Hydref 2001. Mae gan y Comisiwn rwymedigaeth gyfredol i arolygu ardaloedd y prif gynghorau'n barhaus ac ystyried unrhyw argymhellion a wnaed gan y prif gynghorau mewn perthynas ag arolygon o ardaloedd cymuned a gynhaliwyd ganddynt.

6.15 Cynhaliodd y Cynulliad Cenedlaethol arolwg polisi o waith y Comisiwn ym mis Gorffennaf a mis Awst 2000. Nid oedd adroddiad yr arolwg ar gael pan baratowyd y cyfrifon hyn.

Aelodau'r Comisiwn

6.16

Yr Athro E Sunderland OBE LL	(Cadeirydd)
E F L FitzHugh OBE DL	(Dirprwy-Gadeirydd)
Mrs S G Smith	

oedd Aelodau'r Comisiwn a wasanaethai yn ystod y flwyddyn.

6.17 Ar 8 Mehefin 2000 ymestynnodd y Cynulliad Cenedlaethol benodiad cyfredol y Cadeirydd a'r Dirprwy-Gadeirydd tan 31 Rhagfyr 2001. Mae penodiad cyfredol Mrs Smith yn parhau tan 31 Mawrth 2002.

Penodi'r Archwilwyr

6.18 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwiliwr penodedig y Comisiwn.

6.19 Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio, o dan gadeiryddiaeth Mr FitzHugh, bedair gwaith yn ystod y flwyddyn er mwyn cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol, ystyried pob un o'r adroddiadau oddi wrth yr archwilwyr mewnol ac allanol a gweinyddu polisi'r Comisiwn ynglŷn â thwyll a'i weithdrefn gwyno.



R L KNIGHT
Swyddog Cyfrifo
14 Medi 2000

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R COMISIWN A'R YSGRIFENNYDD

Mae'n ofynnol i'r Comisiwn baratoi datganiad cyfrifon ar y ffurf a'r sail a bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail gronnol ac mae'n rhaid iddynt roi darlun teg a chywir o sefyllfa'r Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn ynghyd â'i incwm a'i wariant, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Comisiwn:

i) cadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys gan gynnwys unrhyw ofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifo priodol a hynny'n gyson.

ii) llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;

iii) datgan a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys, gan ddatgelu ac egluro unrhyw achosion perthnasol o fethu â'u dilyn yn y datganiadau ariannol; a

iv) paratoi'r datganiadau ariannol ar sail parhad busnes, oni fydd yn amhriodol rhagdybio y bydd yr endid yn parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifo'r Cynulliad wedi penodi'r uwch swyddog amser llawn, sef yr Ysgrifennydd, fel Swyddog Cyfrifo'r Comisiwn. Mae Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd gan y Trysorlys yn nodi ei briod gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros gywirdeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus a chadw cofnodion priodol.

DATGANIAD AR Y SYSTEM RHEOLI ARIANNOL FEWNOL

Fel y Swyddog Cyfrifo, cydnabyddaf fy nghyfrifoldeb dros sicrhau y bydd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru yn cynnal a gweithredu system rheoli ariannol fewnol effeithiol.

Mae'r system ond yn gallu rhoi sicrwydd rhesymol yn hytrach na sicrwydd llwyr bod asedau yn cael eu diogelu, bod trafodion yn cael eu hawdurdodi a'u cofnodi mewn modd priodol, a bod gwallau neu achosion o afreoleidd-dra yn cael eu hatal neu y byddent yn cael eu darganfod yn amserol.

Seilir y system rheoli ariannol fewnol ar fframwaith o reoli gwybodaeth yn gyson, gweithdrefnau gweinyddol gan gynnwys rhannu dyletswyddau, a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Yn benodol, mae'n cynnwys:

- systemau cyllidebu cynhwysfawr gyda chyllideb flynyddol y mae'r Comisiwn yn ei harolygu a chytuno arni;
- arolygon rheolaidd o adroddiadau ariannol cyfnodol a blynyddol gan y Comisiwn sy'n nodi perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolygon;
- pennu targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall;
- canllawiau penodol iawn ar gaffael.

Mae Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru wedi penodi archwilwyr mewnol sy'n gweithredu yn ôl safonau a ddiffiniwyd yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Caiff gwaith yr archwilwyr mewnol ei lywio trwy ddadansoddi'r risg y mae'r Comisiwn yn agored iddi, a chaiff cynlluniau archwilio mewnol eu seilio ar y dadansoddiad hwn. Caiff y dadansoddiad risg a'r cynlluniau archwilio mewnol eu cymeradwyo gennyf a Phwyllgor Archwilio'r Comisiwn. Mae'r archwilwyr mewnol penodedig yn rhoi adroddiad i mi ar y gweithgaredd archwilio mewnol yn y Comisiwn o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r adroddiad yn cynnwys barn annibynnol yr archwiliwr mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd systemau rheoli ariannol fewnol y Comisiwn.

Caiff fy arolwg o effeithiolrwydd y system rheoli ariannol fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol, y Comisiwn Archwilio sy'n goruchwylio gwaith yr archwilwyr mewnol, swyddog cyllid y Comisiwn sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli ariannol, a sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyrau rheoli ac adroddiadau eraill.

Fel y Swyddog Cyfrifo, rwyf yn ymwybodol o argymhellion Pwyllgor Turnbull ac rwyf yn cymryd camau rhesymol i gydymffurfio â gofyniad y Trysorlys parthed paratoi datganiad rheoli mewnol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002, yn unol â'r arweiniad y bydd yn ei gyhoeddi.



R L KNIGHT
Swyddog Cyfrifo
14 Medi 2000

TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 17 i 26. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn ôl y dull cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd trwy ailbrisio asedau sefydlog penodol ynghyd â'r polisïau cyfrifo a nodwyd ar dudalennau 21 a 22.

Priod gyfrifoldebau'r Comisiwn, yr Ysgrifenydd a'r Archwiliwr

Fel y nodwyd ar dudalen 13 y Comisiwn a'r Ysgrifennydd sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r Comisiwn a'r Ysgrifennydd hefyd yn gyfrifol am baratoi cynnwys yr Adroddiad Blynyddol. Caiff fy nghyfrifoldebau, fel archwiliwr annibynnol, eu harwain gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Cyhoeddaf fy marn p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir ac a ydynt wedi eu paratoi'n gywir yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob agwedd berthnasol ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Cyflwynaf adroddiad hefyd os nad yw'r rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Comisiwn wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol, neu os na fyddaf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Rwyf yn darllen y wybodaeth arall sydd yn yr Adroddiad Blynyddol ac ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Rwyf yn ystyried y goblygiadau o ran fy nhystysgrif os caf wybod am unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysonderau perthnasol â'r datganiadau ariannol.

Rwyf yn arolygu a yw'r datganiad ar dudalen 14 yn adlewyrchu cydymffurfiad y Comisiwn ag arweiniad y Trysorlys sef 'Corporate governance: statement on the system of internal financial control'. Rwyf yn cyflwyno adroddiad os nad yw'n bodloni'r gofynion a nodwyd gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â'r wybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni yn sgîl fy archwiliad o'r datganiadau ariannol.

Sail y farn

Cynheliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio'r dystiolaeth, ar sail brawf, sy'n berthnasol i symiau, datganiadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesu amcangyfrifon a dyfarniadau o bwys a wnaed gan y Comisiwn a'r Ysgrifennydd wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Comisiwn, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Bûm yn cynllunio a chyflawni fy archwiliad fel y gellid cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oedd eu hangen yn fy marn er mwyn rhoi digon o dystiolaeth i mi roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys cam-ddatgan perthnasol, naill ai oherwydd gwall, neu dwyll neu unrhyw fath arall o afreoleidd-dra a bod y gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso at ddibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob agwedd berthnasol a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn, rwyf hefyd wedi gwerthuso pa mor ddigonol yn gyffredinol oedd y modd y cafodd y wybodaeth ei chyflwyno yn y datganiadau ariannol.

Barn

Yn fy marn:

i) mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ar 31 Mawrth 2000 ac o'r gwarged, cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ac maent wedi eu paratoi'n gywir yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; a

ii) mae'r gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob agwedd berthnasol ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Medi 2000

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFRIF INCWM A GWARIANT
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2000

	Nodiadau	2000	1999
		£	£
INCWM GROS			
Cymorth Grant	2	**318,665**	386,578
Rhyddhau Grant y Llywodraeth a Ohiriwyd	9	**12,479**	12,212
		331,144	398,790
GWARIANT			
Costau staff	3	**172,597**	214,712
Dibrisiant a symiau eraill a ddilewyd o asedau sefydlog	5	**12,479**	11,715
Tâl tybiannol: Cost Cyfalaf		**1,251**	1,250
Taliadau gweithredol eraill	4	**142,282**	172,408
		328,609	400,085
Gwarged /(diffyg) gweithredol		**2,535**	(1,295)
Llog derbyniadwy		**684**	1,190
Diffyg o ran gwaredu asedau sefydlog		-	(497)
Swm a ildiwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru		**(966)**	(1,283)
Gwarged /(diffyg) a drosglwyddwyd i'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer y flwyddyn		**2,253**	(1,885)

DATGANIAD O GRONFEYDD WEDU EU CADW

Gwarged wedi ei gadw a ddygwyd ymlaen	**1,119**	1,754
Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn	**2,253**	(1,885)
Addasiad ar gyfer cost cyfalaf	**1,251**	1,250
Gwarged wedi ei gadw a gariwyd ymlaen	**4,623**	1,119

Dosbarthwyd pob gweithgaredd yn rhai sy'n parhau

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 26 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

MANTOLEN
ar 31 Mawrth 2000

	Nodiadau	2000		1999	
		£	£	£	£
ASEDAU SEFYDLOG					
Asedau Sefydlog Diriaethol	5		**17,264**		18,619
ASEDAU CYFREDOL					
Dyledwyr a blaendaliadau	6	**4,624**		24,396	
Arian parod yn y banc/mewn llaw		**81,942**		5,098	
		86,566		29,494	
CREDYDWYR					
Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	7	**(81,943)**		(28,375)	
(RHWYMEDIGAETHAU)/ASEDAU NET CYFREDOL			**4,623**		1,119
CYFANSWM YR ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL			**21,887**		19,738
ARIANNWYD GAN:					
CRONIADAU AC INCWM A OHIRIWYD					
Grant y Llywodraeth a Ohiriwyd	9		**17,264**		18,619
CRONFEYDD					
Cyfrif Incwm a Gwariant	9		**4,623**		1,119
			21,887		19,738

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 26 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

R L KNIGHT
Ysgrifennydd a Swyddog Cyfrifo
14 Medi 2000

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2000

Cysoni'r gwarged gweithredol â'r mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredol

	Nodiadau	2000	1999
		£	£
Gwarged /(diffyg) gweithredol		**2,535**	(1,295)
Addasiad ar gyfer tâl tybiannol – Cost Cyfalaf		**1,251**	1,250
Dibrisiad a symiau eraill a ddilewyd o asedau sefydlog		**12,479**	11,715
Gostyngiad/(Cynnydd) mewn dyledwyr		**19,772**	(22,642)
Cynnydd mewn credydwyr		**53,268**	6,129
Rhyddhau Grant y Llywodraeth a ohiriwyd		**(12,479)**	(12,212)
Mewnlif / (all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredol		**76,826**	(17,055)

DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD

Mewnlif (all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredol		**76,826**	(17,055)
Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu arian	10	**18**	(93)
Gwariant cyfalaf	10	**(11,124)**	(11,564)
Ariannu	10	**11,124**	11,564
Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod		**76,844**	(17,148)

Cysoni'r llif arian parod net â'r symudiadau mewn cronfeydd net

Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod ar gyfer y cyfnod	**76,844**	(17,148)
Cronfeydd net ar 1 Ebrill 1999	**5,098**	22,246
Cronfeydd net ar 31 Mawrth 2000	**81,942**	5,098

Mae'r nodiadau ar dudalennau 21 i 26 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

DATGANIAD CYFANSWM YR ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2000

	2000	1999
	£	£
Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn ariannol	**2,253**	(1,885)
Addasiad ar gyfer cost dybiannol cyfalaf	**1,251**	1,250
Enillion a (cholledion) cydnabyddedig eraill ar gyfer y flwyddyn	**-**	(896)
Cyfanswm yr enillion a (cholledion) cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn	**3,504**	(1,531)

Mae'r nodiadau ar dudalenni 21 i 26 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2000

1. POLISÏAU CYFRIFO

1.1 Y Dull Cyfrifo

Paratoir y cyfrifon yn ôl y dull cost hanesyddol heblaw bod asedau sefydlog, lle bo hynny'n briodol, yn cael eu cario yn ôl eu gwerth i'r busnes trwy gyfeirio at gostau cyfredol. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddwyd, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a'r safonau cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Archwilio cyhyd ag y bo'r gofynion hynny'n briodol. Mae'r Comisiwn wedi ei eithrio o'r gofyniad i gynhyrchu nodyn o elw a cholled cost hanesyddol o dan Safon Adrodd Cyfrifo Rhif 3.

1.2 Prisio asedau sefydlog

Nodir asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r Comisiwn trwy gyfeirio at gostau amnewid cyfredol llai dibrisiad. Caiff asedau sefydlog eu cyfalafu yn ôl cost eu caffael a'u gosod ac fe'u hailbrisir bob blwyddyn gan ddefnyddio mynegeion priodol. Ym marn y Comisiwn, nid oes unrhyw wahaniaeth perthnasol rhwng cost amnewid gyfredol a hanesyddol dodrefn a chyfarpar swyddfa. Dilëer costau meddalwedd cyfrifiadurol fel y bônt yn codi.

Cymerwyd unrhyw gynnydd neu ostyngiadau dros dro o ran gwerth ymhob dosbarthiad ased i'r gronfa ailbrisio wrth gefn. Codir gostyngiadau parhaol o ran gwerth ar y cyfrif Incwm a Gwariant.

1.3 Dibrisio

Cyfrifir dibrisiad asedau sefydlog i ddileu eu cost neu eu prisiad dros eu bywyd defnyddiol amcangyfrifedig fel a ganlyn:

Cyfarpar cyfrifiadurol	5 mlynedd
Dodrefn a chyfarpar swyddfa	5 mlynedd

1.4 Grantiau'r Llywodraeth

Credydir grantiau o natur refeniw i'r incwm yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

Credydir grantiau'r Llywodraeth a dderbyniwyd ar gyfer gwariant cyfalaf i gyfrif grantiau'r llywodraeth a ohiriwyd a chânt eu rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant yn ystod bywyd defnyddiol disgwyliedig yr asedau perthnasol fesul symiau cyfartal.

1.5 Treth Ar Werth (TAW)

Ni chofrestrir y Comisiwn ar gyfer TAW. Mae pob gwariant a phryniadau asedau sefydlog yn cynnwys TAW fel y bo'n briodol.

1.6 Pensiynau

Gwneir taliadau i'r Tâl-feistr Cyffredinol am unrhyw symiau o'r fath sy'n briodol fel rhwymedigaethau cronnol Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil mewn perthynas â

phensiynau a budd-daliadau cyffelyb eraill i unigolion a gyflogir gan y Comisiwn ac mewn perthynas â'r treuliau gweinyddol y gellir eu priodoli i'r rhwymedigaethau a'u rhyddhau.

1.7 **Taliadau Tybiannol**

i) **Cost Cyfalaf**

Yn ôl cyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cynhwysir tâl cyfalaf tybiannol a godwyd sy'n adlewyrchu cost cyfalaf a ddefnyddiwyd yn y costau gweithredol ac fe'i cyfrifir fel 6% o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd.

2. CYMORTH GRANT

	2000 £	1999 £
Cymorth grant a dderbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	**374,720**	374,865
Plws: Swm i'w dderbyn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	**-**	23,277
Llai: Swm i'w ad-dalu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru	**(44,931)**	-
Llai: Cymorth Grant ar gyfer gwariant cyfalaf	**(11,124)**	(11,564)
Cymorth Grant a gredydwyd i'r cyfrif Incwm a Gwariant	**318,665**	386,578

3. COSTAU STAFF A'R AELODAU:

	2000 £	1999 £
i) **Costau Staff a'r Aelodau**		
Cydnabyddiaeth Aelodau'r Comisiwn	**12,462**	12,223
Cyflogau	**131,288**	166,222
Yswiriant Gwladol Cyflogwyr	**10,156**	13,318
Costau pensiynau	**18,691**	22,949
	172,597	214,712
Nifer gyfartalog y staff a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn ariannol	**6**	9

Ac eithrio'r Ysgrifennydd, nid oedd yr un o staff y Comisiwn yn ennill mwy na £30,000.

ii) Gweision Sifil yw cyflogeion y Comisiwn ac mae amodau Deddfau Pensiynau 1965 a 1972 a'r newidiadau dilynol yn berthnasol iddynt. Ar gyfer 1999-2000 talwyd cyfraniadau o £18,691 (1998-1999 £22,949) (heb gynnwys TAW) i'r Tâl-Feistr Cyffredinol yn unol â'r cyfraddau a bennir o bryd i'w gilydd gan Actiwari'r Llywodraeth ac a argymhellir gan y Trysorlys. Ar gyfer 1999-2000 roedd y cyfraddau'n amrywio rhwng 12.0% a 16.5% o gyflog gros gan ddibynnu ar gyflog y cyflogai.

iii) **Cydnabyddiaeth Aelodau'r Comisiwn**

Roedd cydnabyddiaeth aelodau'r Comisiwn yn ymwneud yn llwyr â'r gwasanaethau a roddwyd yn ystod y flwyddyn. Ni wnaed unrhyw gyfraniadau pensiwn.

£5,689 oedd tâl Cadeirydd y Comisiwn, sef y tâl mwyaf o blith yr aelodau, (1998-99: £5,494). Cafodd aelodau eraill y Comisiwn lai na £5,000 yr un.

iv) **Cyflogau a Phensiynau**

Yn unol â Chôd Greenbury a DAO (GEN) 3/00, mae'n ofynnol i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ddatgelu'r manylion canlynol parthed cydnabyddiaeth uwch aelodau o'r staff sy'n gyfrifol am adrannau sy'n llunio polisïau:-

Enw a Theitl	**Oedran**	**Cyflog** £	**Cynnydd Gwirioneddol Mewn Pensiwn yn 60** £	**Cyfanswm Pensiwn Cronnol yn 60 yn 31 Maw 00** £
Roger Knight Ysgrifennydd	55	40,103	522	1,971
Steve Halsall Arweinydd Tîm	44	27,347	497	7,248

Cychwynnodd yr Ysgrifennydd presennol yn ei swydd ar 22 Ebrill 1996 o dan gontract tymor sefydlog pedair blynedd a gafodd ei ymestyn wedi hynny i 20 Hydref 2000 gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Cafodd gydnabyddiaeth o £46,608 yn ystod y flwyddyn gan gynnwys £6,505 o gyfraniadau pensiwn y cyflogwr (1998-99: £45,603, gan gynnwys £6,265 o gyfraniadau pensiwn y cyflogwr). Mae Cyflog yr Ysgrifennydd yn cynnwys tâl bonws perfformiad. Mae'r Ysgrifennydd yn aelod cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaethu Sifil. Cyfrannodd y cyflogwr swm a oedd yn cyfateb i 16.5% o gyflog yr Ysgrifennydd i'r cynllun.

iv) **Pensiynau**

Darperir budd-daliadau pensiwn trwy Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Cynllun statudol ydyw. Mae'n darparu budd-daliadau ar sail "cyflog terfynol" ar ôl cyrraedd yr oedran ymddeol arferol sef 60. Telir budd-daliadau ar gyfradd o 1 rhan o 80 o'r cyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad wrth ymddeol sy'n cyfateb i 3 blynedd o bensiwn. Mae'r aelodau'n talu cyfraniadau o 1.5% o'u henillion pensiynadwy. Mae pensiynau'n cynyddu o ran taliadau yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Ar ôl marwolaeth mae'r pensiwn yn daladwy i'r priod sy'n goroesi ar gyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Ar ôl marwolaeth mewn gwasanaeth mae'r cynllun yn talu cyfandaliad budd-dâl sydd ddwywaith gymaint â'r cyflog pensiynadwy gan hefyd ddarparu ychwanegiad gwasanaeth ar ôl cyfrifo pensiwn y priod. Mae'r ychwanegiad hwn yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn fwy na 10 mlynedd. Mae'n bosibl ymddeol oherwydd salwch os bydd achos o salwch difrifol. Yn yr achos hwn, caiff y pensiwn ei dalu ar unwaith heb ostyngiad actiwaraidd a gydag ychwanegiad gwasanaeth ar gyfer pensiynau gwþr neu wragedd gweddwon.

iv) **Cofrestr Rhoddion**

Mae'r Comisiwn hefyd yn cadw cofrestr rhoddion. Ni chafwyd unrhyw roddion yn ystod y flwyddyn.

4. COSTAU GWEITHREDOL ERAILL

	2000	1999
	£	£
Teithio a Chynhaliaeth:		
Staff	**2,987**	3,367
Aelodau'r Comisiwn	**5,116**	6,065
Ffioedd Cyrsiau a Hyfforddiant i'r Staff	**1,909**	3,952
Ffi Archwilio Allanol	**4,876**	4,700
Cydnabyddiaeth yr Archwiliwr Allanol ar gyfer Gwaith Archwilio Arall	**470**	411
Hysbysebu	**26,362**	35,974
Cyfieithu	**4,992**	4,837
Argraffu, post a deunydd ysgrifennu	**13,259**	16,023
Ffôn	**2,139**	2,590
Costau adeiladau ac ystafelloedd	**58,551**	66,759
Hurio offer swyddfa	**1,974**	1,974
Cyfreithiol a phroffesiynol	**5,754**	8,003
Costau cyfrifiadurol di-gyfalaf	**8,934**	12,305
Arall	**4,959**	5,448
	142,282	172,408

5. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

	Cyfarpar Cyfrifiadurol	**Dodrefn a Chyfarpar Swyddfa**	**Cyfanswm**
	£	**£**	**£**
Cost neu Brisiad			
Ar 1 Ebrill 1999	27,974	19,792	47,766
Ychwanegiadau	11,124	-	11,124
Ar 31 Mawrth 2000	**39,098**	**19,792**	**58,890**
Dibrisiad			
Ar 1 Ebrill 1999	15,686	13,461	29,147
Darparwyd ar ei gyfer yn ystod y flwyddyn	5,592	3,958	9,550
Gostyngiad parhaus mewn gwerth	2,929	-	2,929
Ar 31 Mawrth 2000	**24,207**	**17,419**	**41,626**
Gwerth Llyfr Net			
Ar 31 Mawrth 2000	**14,891**	**2,373**	**17,264**
Ar 1 Ebrill 1999	12,288	6,331	18,619

Nid oedd unrhyw ymrwymiadau i brynu asedau sefydlog ar 31 Mawrth 2000.

Mae'r tâl dibrisiad a godwyd ar gyfer y flwyddyn sef £12,479 yn cynnwys darpariaeth o £9,550 yn ystod y flwyddyn a £2,929 o ostyngiad parhaus mewn gwerth cyfarpar cyfrifiadurol.

6. DYLEDWYR

	2000	1999
	£	£
Cymorth Grant derbyniadwy Cynulliad Cenedlaethol Cymru	**-**	23,276
Blaendaliad	**3,427**	1,120
Dyledion eraill	**1,197**	-
	4,624	24,396

7. CREDYDWYR: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

	2000	1999
	£	£
Credydwyr Masnachu	**23,680**	16,904
Cymorth Grant Cynulliad Cenedlaethol Cymru a ad-dalwyd	**44,931**	30
Trethiant a Nawdd Cymdeithasol	**4,167**	4,457
Croniadau	**9,165**	6,984
	81,943	28,375

8. PRYDLESAU GWEITHREDOL

	Adeiladau		**Offer Swyddfa**	
	2000	1999	**2000**	1999
	£	£	**£**	£
Ymrwymiadau Blynyddol o dan brydlesau gweithredol sy'n dod i ben:				
Ymhen blwyddyn	**-**	-	**1,974**	1,974
Ymhen rhwng dwy a phum mlynedd	**-**	-	**-**	-
Ymhen dros bum mlynedd	**45,432**	45,432	**-**	-

9. SYMUDIADAU YNG NGHRONFEYDD Y LLYWODRAETH

	Grant y Llywodraeth a Ohiriwyd	**Cyfrif Incwm a Gwariant**	**Cyfanswm**
	£	**£**	**£**
Gwarged ar gyfer y flwyddyn		2,253	2,253
Addasiad ar gyfer cost cyfalaf		1,251	1,251
Cymorth Grant derbyniadwy ar gyfer gwariant cyfalaf	11,124		11,124
Cymorth Grant a ohiriwyd wedi ei ryddhau i'r cyfrif incwn a gwariant	(12,479)		(12,479)
Symudiadau yng Nghronfeydd y Llywodraeth ar gyfer y flwyddyn	(1,355)	3,504	2,149
Cronfeydd y Llywodraeth ar 1 Ebrill 1999	18,619	1,119	19,738
Cronfeydd y Llywodraeth ar 31 Mawrth 2000	17,264	4,623	21,887

10. NODIADAU I'R DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD

LLIFAU ARIAN PAROD GROS

	2000	1999 (ail-ddatganwyd)
	£	£
Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu arian		
Llog derbyniadwy	**684**	1,190
Llog taladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru	**(666)**	(1,283)
	18	(93)
Gwariant Cyfalaf		
Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol	**(11,124)**	(11,564)
Ariannu		
Swm derbyniadwy ar gyfer gwariant cyfalaf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	**11,124**	11,564

11. TRAFODION Â PHARTÏON PERTHNASOL

Mae Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol o dan nawdd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a'r Swyddfa Gymreig gynt).

Ystyrir bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n barti perthnasol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Comisiwn amryw o drafodion perthnasol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn ogystal, cafodd y Comisiwn ychydig o drafodion perthnasol gydag adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrff eraill Llywodraeth Ganolog. Cafwyd y rhan fwyaf o'r trafodion hyn gyda Thþ'r Cwmnïau a'r Tâl-Feistr.

Yn ystod y flwyddyn, ni chafodd unrhyw un o aelodau'r Comisiwn, aelodau o'r staff rheoli allweddol na'r partïon perthnasol eraill unrhyw drafodion perthnasol â Chomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.